O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2446 (Cy. 264)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Gogledd o Gylchfan Llandidwg i Gyffordd Pont Afon Gwy, Trefynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2012

Gwnaed	*21 Medi 2012*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Man i'r Gogledd o Gylchfan Llandidwg i Gyffordd Pont Afon Gwy, Trefynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r de ar gefnffordd yr A40 yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 775 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y fynedfa i Leasebrook Court hyd at bwynt 100 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r A466 wrth Bont Afon Gwy.